# Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

**CYP(3) 02-07 (p1): 29 Tachwedd 2007""**

## Ymchwiliad i Wasanaethau Eirioli i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru

### Diben y Papur

1. I'r Pwyllgor drafod a chytuno ar y ffordd ymlaen ar gyfer yr ymchwiliad hwn.

### Cefndir

2. Mae'r Pwyllgor eisoes wedi cytuno ar Gylch Gorchwyl yr Ymchwiliad hwn drwy gyfrwng e-bost. Y mae i'w weld yn Atodiad A.

3. Lansiodd y Gweinidog ymgynghoriad ym mis Mawrth 2007, a amlinellodd gynigion i ddarparu gwasanaethau eirioli i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mynegwyd pryder am fodel arfaethedig y gwasanaeth newydd a nod yr ymchwiliad yw i'r Pwyllgor archwilio'r model a'r posibilrwydd o'i fireinio ymhellach.

4. Rydym yn argymell y dylai'r ymchwiliad fynd rhagddo fel a ganlyn:

(a) Gwneud cais am dystiolaeth gan ofyn cwestiynau penodol sy'n seiliedig ar gynigion y Llywodraeth - mae rhestr o gwestiynau drafft posibl yn Atodiad B. Mae'r rhain wedi'u seilio ar y wybodaeth a oedd ar gael cyn i'r Gweinidog siarad â'r Pwyllgor ac mae'n bosibl y bydd angen eu mireinio'n dilyn y drafodaeth. **Gwahoddir yr Aelodau i drafod y cwestiynau ar ôl y drafodaeth â'r Gweinidog.**

(b) Gwneud cais am dystiolaeth drwy gyhoeddi hysbysiad yn y wasg a'i anfon at y bobl a'r sefydliadau perthnasol. Caiff rhestr ddosbarthu ddrafft ei hanfon at yr Aelodau er mwyn iddynt ei hystyried y tu allan i'r Pwyllgor.

(c) ofyn am dystiolaeth lafar gan Blant yng Nghymru, Voices from Care, CLlLC a'r Comisiynydd Plant. Mae'n bosibl y byddwn yn gofyn i rai o'r sefydliadau sy'n cyflwyno sylwadau ysgrifenedig roi tystiolaeth lafar ychwanegol. **Gwahoddir yr Aelodau i drafod a'i dyma'r tystion gorau i roi tystiolaeth lafar.**

(d) Yna bydd casgliadau rhagarweiniol y Pwyllgor yn cael eu trafod â grwpiau o blant a phobl ifanc. Mae'n bosibl mai dyma fydd rhan anoddaf yr ymchwiliad, ac un rheswm dros hyn yw bod angen bwrw ymlaen â'r gwaith yn gyflym. Dyma un ffordd y gellir gwneud hyn:

nodi rhai o'r grwpiau o blant a phobl ifanc yn y Gogledd, y Gorllewin a'r De a fyddai'n debygol o drafod cynigion y Pwyllgor, er mwyn sicrhau ein bod yn ymgynghori â grwpiau o bob rhan o Gymru.

awgrymu nifer o gwestiynau allweddol sy'n seiliedig ar yr ymchwiliad;

gofalu bod Aelod o'r Pwyllgor a chlerc yn mynd i bob cyfarfod ac yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y sylwadau a gynigiwyd. Gallai'r rhain gyfrannu at drafodaethau terfynol y Pwyllgor a chael eu cynnwys yn ei adroddiad.

**Gwahoddir yr Aelodau i drafod y dull hwn o weithredu ac, yn benodol, i awgrymu sefydliadau mewn gwahanol rannau o Gymru a allai helpu i ddod â'r grwpiau o blan a phobl ifanc ynghyd.**

(e) Paratoi adroddiad i gytuno arno erbyn diwedd mis Ionawr.

### Camau i'w cymryd

5. Gwahoddir yr Aelodau i drafod y dull cyffredinol hwn o weithredu ac unrhyw faterion penodol mewn print trwm.

**Helen Mary Jones**
**Cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc**

# Atodiad A - Cylch Gorchwyl

## Ymchwiliad i Wasanaethau Eirioli i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru

### Cylch Gorchwyl

### Diben

Craffu ar gynigion Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu gwasanaethau eirioli yn dilyn y broses ymgynghori a gynhaliwyd ynghylch y model newydd ar gyfer y gwasanaethau eirioli i blant a phobl ifanc a ddaeth i ben ar 23 Gorffennaf 2007.

### Dull

Bydd y Pwyllgor yn gofyn am dystiolaeth gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, cyrff allanol a phlant a phobl ifanc yng Nghymru

## Amserlen

Nod y Pwyllgor yw cyflwyno adroddiad erbyn diwedd mis Ionawr 2008

**Atodiad B - cwestiynau ddrafft ar gyfer galwad am dystiolaeth**

1. Mae'n ymddangos bod cydsyniad cyffredinol y dylai gwasanaethau eirioli fod yn annibynnol. Sut ydych chi'n meddwl y dylid comisiynu gwasanaethau eirioli i ofalu eu bod yn ddigon annibynnol i fedru ennyn hyder plant a phobl ifanc ynddynt ac i feithrin ymddiriedaeth yn y system gan ddarparu gwasanaethau hyblyg ac ymatebol yr un pryd?

2. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymgynghori ynghylch Model Gwasanaeth Newydd ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eirioli i Blant a Phobl Ifanc.

i) Wnaethoch chi ymateb i'r ymgynghoriad? Os do, ewch i gwestiwn ii). Os naddo, ewch i gwestiwn 3)

ii) Ydych chi'n fodlon rhannu'ch sylwadau â'r Pwyllgor? (Os felly, atodwch eich sylwadau).

iii) Ydych chi'n meddwl bod y model gwasanaeth a amlinellwyd yn ddigonol i gyrraedd ei nod i sicrhau 'gwasanaethau eirioli mwy annibynnol a hygyrch; gwasanaethau eirioli y gall plant a phobl ifanc ymddiried ynddynt'?

3. Mae dogfen ymgynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru yn awgrymu y dylid sefydlu Uned Eirioli i Blant Cymru. Ydych chi'n meddwl y dylid sefydlu'r uned hon, neu gorff tebyg, a pha rôl neu swyddogaeth ydych ch'n rhagweld fyddai ganddi?